



Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 342 – 17 Chwefror 2011

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 341

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 341.

Cyfyngau Newydd – yn dilyn cwestiwn, eglurwyd y bydd aelodau'r fforwm yn derbyn tâl am eu cyfraniad. Tîm ymgynghorol yw'r fforwm a fydd yn cynghori S4C i amlinellu strategaeth yn y maes hwn.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

4. Adroddiad a Chyflwyniad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd yn benodol at yr arlwy ddrama, chwaraeon a'r rhaglenni arbennig at gyfnod Dydd Gŵyl Dewi gan gynnwys **Wyneb Glyndŵr** a **Chân i Gymru**.

5. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys

Rhoddodd CE adborth i'r Awdurdod o'r Pwyllgor. Nodwyd y canlynol yn benodol:

Canllawiau Iaith Rhaglenni S4C - Bydd angen i'r canllawiau newydd adlewyrchu pwrpas y rhaglen a'i chynulleidfa.

Strategaeth Cynnwys 3 mlynedd S4C - Cafwyd trafodaeth hir ac adeiladol. Ar gais yr aelodau trefnir cyfarfod arall o'r Pwyllgor Cynnwys ar 28.02.2011 i drafod y weledigaeth ac i ganiatáu i'r tîm weithio ar yr opsiynau.

6. Strategaeth Cyfathrebu 2011

Cyflwynodd GLL y Strategaeth Cyfathrebu 2011. Bydd pedair prif ymgyrch yn ystod 2011, gan bwysleisio gwerthoedd S4C, a chyfraniad y Sianel at fywyd pobl Cymru, y diwylliant a'r iaith. Bydd y gyntaf yn ardal Tregaron a Phontrhydfendigaid a'r ail ar Ben Llŷn i gyd fynd â'r ddrama newydd Porthpenwaig.

7. Trafodaethau gyda'r BBC/ADdCCh/S4C

Nododd AEO fod dau gyfarfod rhwng BBC/ADdCCh/S4C yn ystod yr wythnos nesaf. Bydd S4C yn ymateb i gynnig y BBC ac yn cyflwyno cynnig newydd.

8. Strategaeth Cynnwys

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys cyflwynir amserlen ar gyfer symud ymlaen ar 25.02.2011. Trefnir cyfarfod undydd gyda'r sector annibynnol yn Llandrindod ym mis Mawrth er mwyn trafod y Strategaeth.

9. Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth: diweddariad 2011

Cyflwynwyd copi o'r uchod i'r Awdurdod. Tynnwyd sylw at fân newidiadau a nodwyd bod yr

ymrwymiad yn gyson â gweithgareddau arfaethedig S4C i Amrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu i Bobl Anabl 2011. Cymeradwyodd yr Awdurdod yr ymrwymiad.

10. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol